



LITERATURE  
ACROSS  
FRONTIERS



Sandorf



## Galwad Agored ar gyfer Preswyladau i Awduron a Chyfieithwyr

### ULYSSES' SHELTER

**Agor yr alwad: Chwefror 2, 2021**

**Dyddiad Cau: Chwefror 28, 2021**

**Hyd y preswylad: 2 neu 3 wythnos, dibynnol ar y lleoliad**

**Cyfnod y preswylad: Mai 2021 – Gorffennaf 2022 (yn fyw neu ar-lein – gweler isod)**

Mae ULYSSES' SHELTER: ADEILADU RHWYDWAITH AWDURON PRESWYL yn ail gam o brosiect a gyd-ariennir gan raglen Ewrop Greadigol yr Undeb Ewropeaidd gyda'r nod o greu rhwydwaith o breswyladau cyfnwida llenyddol yn Ewrop wedi eu cynllunio'n bennaf ar gyfer awduron (rhyddiaith/barddoniaeth) a chyfieithwyr llenyddol ifanc ar draws Ewrop yn y gwledydd canlynol: Croatia, Cymru, Gwlad Groeg, Slofenia, Serbia. Partneriaid y prosiect sydd hefyd yn trefnu'r rhaglen preswylid yn eu gwlad nhw:

1. Sandorf, Mljet (Croatia)
2. Thraka Publishing, Larissa (Gwlad Groeg)
3. Cymdeithas Awduron Slofenia (SWA/DSP), Ljubljana (Slofenia)
4. Krokodil, Belgrade (Serbia)
5. Llenyddiaeth ar draws Ffiniau a Chyfnwida Llen Cymru, Cymru

Bydd rhaglen y preswyladau yn canolbwyntio ar symudedd rhyngwladol ac ar ddatblygu cynulleidfaoedd ac fe fydd yn rhoi cyfleoedd i awduron a chyfieithwyr o dan 40 oed i gael gweithio, perfformio a chyflwyno eu hunain mewn dau gyd-destun cymdeithasol a diwylliannol gwahanol. Bydd y preswyladau yn dod â chyfleoedd a phosibiliadau newydd i eraill fel rhan o'r prosiect, yn awduron, cyfieithwyr, golygyddion, cyhoeddwr a/neu gynrychiolwyr o gyrff llenyddol yn Nghymru, Croatia, Slofenia, Serbia a Gwlad Groeg. Yn ogystal, bydd rhaglen sylweddol o weithgareddau llenyddol wedi eu hanelu at grwpiau targed (lleol) er mwyn cyfoethogi'r preswyladau, naill ai yn weithgareddau byw neu weithgareddau rhithiol. Tra bod yr opsiwn preswylad rhithiol yn angenrheidiol ar gyfer y sefyllfa Covid presennol ledled Ewrop, mae hefyd yn gyfle da i awduron a chyfieithwyr llenyddol na fyddent fel rheol yn gallu teithio neu dreulio pythefnos i ffwrdd o gartref ond a hoffai gael y cyfle i gymryd rhan mewn rhaglen ryngwladol a cyfnwida llenyddol gydag awduron eraill a byddem yn annog ceisiadau gan ymgeiswyr o'r categori hwn. Rydym yn benodol yn croesawu ceisiadau gan awduron/cyfieithwyr ifanc o gymunedau Du, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig yng Nghymru.

Thema ail flwyddyn prosiect Ulysses Shelter 2 i'r preswylwyr a ddewisir fydd myfyrio ar heriau'r pandemig a sut mae awduron yn defnyddio hunan-ynysu. Mae nifer o awduron yn ynysu er mwyn cynhyrchu gwaith llenyddol a, gyda chymdeithas yn gyffredinol bellach yn gorfod hunan-ynysu, mae'n bosib nad yw rhai

awduron wedi cael cyfle i ganolbwyntio ar eu gwaith, neu efallai bod eu profiadau blaenorol o ynysu wedi eu gwneud yn fwy gwydn a hyblyg i'r amodau gweithio presennol. Gwahoddir y preswylwyr i fyfyrto ac i ymateb i'r ffenomen o ynysu a gwaith creadigol drwy gyfrannu eu profiadau cyn-Covid a'r cyfnod clo.

## COVID-19

Bydd pob partner yn dilyn rheoliadau pandemig Covid-19 yn eu gwledydd eu hunain. Efallai y bydd angen brechiadau Covid a chanlyniadau profion negyddol ar gyfer cyfranogwyr sy'n dymuno cymryd rhan yn y preswyladau corfforol, yn unol â'r canllawiau teithio cyfredol. Mae'n bosib bydd angen canslo, gohirio neu addasu'r preswyladau corfforol i fformatau digidol os yw cyfyngiadau teithio neu ddigwyddiad yn y gwledydd sy'n cymryd rhan yn ei gwneud hi'n amhosibl iddynt ddigwydd fel y cynlluniwyd i ddechrau.

Nid yw'n angenrheidiol i gyfranogwyr deithio oni bai eu bod yn dymuno gwneud hynny. Gofynnwn i'r cyfranogwyr a ddewiswyd ein hysbysu o'u dewis ynghylch eu cyfranogiad i'r rhaglen byw a/neu ddigidol.

## Pwy gaiff ymgeisio?

- Rhaid i ymgeiswyr fod yn awduron (rhyddiaith a / neu farddoniaeth) neu'n gyfieithwyr llenyddol
- Rhaid i ymgeiswyr fod wedi cyhoeddi o leiaf un llyfr o'u gwaith eu hunain neu gyfieithiad llenyddol
- Rhaid i ymgeiswyr fod o dan 40 oed ar y dyddiad cau
- Rhaid i ymgeiswyr fod yn Gymry neu fyw yng Nghymru
- Rhaid i ymgeiswyr fedru teithio i un o'r pum gwlad sydd yn rhan o'r prosiect neu sicrhau eu bod ar gael i gymryd rhan mewn rhaglen ddigidol
- Rhaid i ymgeiswyr fod yn agored i gydweithio gydag artistiaid a phartneriaid
- Rhaid i ymgeiswyr ysgrifennu darn ar gyfer gwefan ULYSSES SHELTER Tovar.hr yn ystod y preswylad
- Rhaid i ymgeiswyr fod â diddordeb mewn creu perthynas gyda'r gynulleidfa leol

Rhaid i'r ymgeiswyr gyrraedd pob maen prawf er mwyn cael eu hystyried ar gyfer y preswyladau.

**Trwy gyflwyno cais, mae ymgeiswyr yn derbyn telerau'r alwad hon ac yn cytuno i gymryd rhan yn y rhaglen byw (yn unol â'r mesurau iechyd cyhoeddus ym mhob gwlad a'r canllawiau teithio cyfredol) a/neu yn y rhaglen ar-lein.**

## Beth a gynigir?

- Cyfranogiad yn y rhaglen a un preswylad mewn un o'r gwledydd sy'n rhan o'r brosiect (yn unol â'r mesurau iechyd cyhoeddus ym mhob gwlad a'r canllawiau teithio cyfredol)<sup>1</sup>
- Ffi (€400 i gynnwys holl drethi) a Chynhaliaeth (os dewisir preswylad byw: €300 gros yn Slofenia, Serbia, Croatia a Gwlad Groeg)
- Os dewisir preswylad byw, llety a chostau teithio (dosbarth economi)
- Sesiwn gyflwyno, sgwrs gydag awduron neu weithdai / digwyddiadau eraill

---

<sup>1</sup> Ar gyfer teithio i ac o'r DU, sydd bellach yn 'drydedd wlad' o ran rheolau mewnfudo ers i'r Rhyddid i symud rhwng y DU a'r UE ddod i ben ar 1 Ionawr 2021, bydd y partneriaid yn gwirio'r gofynion mewnfudo penodol ac yn cynghori'r preswylwyr a ddewisir.

- Cyhoeddusrwydd i'r rhai sydd ar breswylad ar gyfryngau cymdeithasol ULYSSES' SHELTER, cylchlythyrau, a gwefan Tovar.hr ac ar wefannau, cylchlythyrau a chyfryngau cymdeithasol y partneriaid
- Cefnogaeth i'r cyfranogwr gan y sefydliad sy'n cynnal eu preswylad
- Cyfleoedd rhwydweithio a chynyddu gwelededd rhyngwladol (yn fyw ac ar-lein)
- Cyfle rhagorol ar gyfer awdur neu gyfieithydd ifanc ac uchelgeisiol i fanteisio ar brofiad unigryw a all gryfhau eu gyrfa, creu gwaith newydd, ymchwilio, ac arbrofi i fynd â'u gwaith i gyfeiriad newydd.

### Beth sydd yn rhaid ei gyflwyno?

Un ddogfen PDF i gynnwys y canlynol gyda'i gilydd:

1. CV (dim mwy na 2 ochr) gan gynnwys manylion am unrhyw waith wedi eu cyhoeddi
2. Llythyr i esbonio pam fod yr ymgeisydd yn awyddus i fynd i leoliadau penodol fel rhan o'r preswyladau a chynllun sydd yn egluro beth yr hoffent wneud yno e.e. gweithio ar nofel newydd, casgliad o farddoniaeth neu straeon byrion, cyfieithiad ac ati (dim mwy nac 1 ochr)
3. . Pa leoliadau fyddai orau gennych (gan gynnwys opsiwn digidol)<sup>2</sup>

Dylid danfon ceisiadau at [info@lit-across-frontiers.org](mailto:info@lit-across-frontiers.org) a [post@waleslitexchange.org](mailto:post@waleslitexchange.org) erbyn 28 Chwefror 2021.

Os ydych am ragor o wybodaeth am yr alwad cysylltwch â [info@lit-across-frontiers.org](mailto:info@lit-across-frontiers.org) a [post@waleslitexchange.org](mailto:post@waleslitexchange.org) gyda'r llinell testun 'Ulysses Shelter'.

### Pryd cyhoeddir y canlyniadau?

Bydd y Panel yn dewis **dau ymgeisydd o Gymru** i gymryd rhan yn y prosiect preswyladau yn ystod 2021.

Cyhoeddir y canlyniadau ar wefannau a chyfryngau cymdeithasol y partneriaid yn ystod **Mawrth 2021** ac fe gaiff ymgeiswyr llwyddiannus ebost uniongyrchol i'w hysbysu.

### Mwy ar waith y partneriaid

- Mae **CYMDEITHAS AWDURON SLOFENIA** (DSP) yn trefnu amrywiaeth o brosiectau rhyngwladol, gan gynnwys preswyladau llenyddol a'r Wyl a Gwobr Lenyddol Rhyngwladol Vilenica (<http://drustvo-dsp.si/en/home/>)

- Mae'r sefydliad diwylliannol o Belgrade, **KROKODIL**, yn ymroddedig i gynhyrchu prosiectau llenyddol, diwylliannol a chymdeithasol-wleidyddol gyda'r nod o ddatblygu cynulleidfaoedd llenyddol, hyrwyddo

---

<sup>2</sup> Dylai pob ymgeisydd nodi trefn y preswyladau o'u dewis ar raddfa o 1 i 5, gyda 1 fel eu dewis cyntaf. Os yn llwyddiannus, bydd y pwyllgor yn ceisio cydymffurfio â dymuniadau'r ymgeisydd a'r dyddiadau pan fyddant ar gael i deithio.

diwylliant y deialog, ailadeiladu cysylltiadau toredig yn y Balcanau, ac i ddyfnhau cyd-ddealltwriaeth a derbyn gwahaniaeth yn Ewrop. (<http://www.krokodil.rs/eng/krokodils-writer-in-residence/>)

- Mae **SANDORF** yn gyhoeddwr annibynnol arobryn a'r asiantaeth lenyddol broffesiynol gyntaf yn y rhanbarth i gynrychioli awduron yn rhyngwladol. Maen nhw'n gweithredu prosiectau rhyngwladol (Ulysses' Shelter, Gŵyl LitLink) (<http://tovar.hr/>)

- Corff anllywodraethol llenyddol a diwylliannol yw **THRAKA** sy'n cael ei redeg gan awduron ifanc sy'n ymroddedig i gyhoeddi egin awduron a threfnu gweithgareddau cynhwysiad diwylliannol a chymdeithasol yn Larissa, Thessaly.

### **GDPR**

Wrth gyflwyno'r cais i'r alwad hon rydych yn rhoi eich caniatâd i'r wybodaeth a gynhwysir ynddo gael ei gadw ar gyfrifiadur neu mewn systemau ffeilio priodol a'i rhannu ag eraill yn unol â GDPR 2018.

### **Preifatrwydd**

Byddwn yn prosesu ac yn cadw data personol yn unol â deddfwriaeth berthnasol bob amser. Defnyddir y wybodaeth a gyflwynir at ddibenion y broses ddethol yn unig. Cyhoeddir enwau a bywgraffiadau byrion o'r ymgeiswyr llwyddiannus.